# CREIGIAU, FFOSILAU AC ARTEFFACTAU AR YNYS MÔN

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau sy'n ennyn diddordeb a ddarperir gennych. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd wych o ddatblygu sgiliau cyfannol dysgwyr (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Byddwch eisiau canolbwyntio ar pam mae dysgu o bwys a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.

Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybr y gellid ei gymryd drwy'r gweithgaredd. Nid yw hyn i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull, yn dibynnu ar anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

## TROSOLWG

Mae dysgwyr yn darganfod sut mae ffosilau'n cael eu ffurfio, gan greu atgynhyrchiad (copi) o ffosil a defnyddio cyfesurynnau GPS i gofnodi ei leoliad, fel y gall eraill chwilio amdano. Maen nhw'n ystyried y rheolau ar gyfer hela ffosilau a'r mathau o ffosilau y gallen nhw ddod o hyd iddyn nhw, cyn cynnal helfa ffosil ar Ynys Môn. Dysgant am archaeoleg a rhai darganfyddiadau archaeolegol pwysig ar Ynys Môn. Yn olaf, maent yn ystyried a ddylai arteffactau gael eu harddangos yn agos at y man lle cawsant eu darganfod ai peidio.

## CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Dull o wneud atgynhyrchiad o ffosil:

- clai modelu
- gwrthrychau bychain i'w defnyddio fel 'ffosilau', e.e. cregyn, dail, ac ati
- cynhwysydd i ddal y mowld, e.e. pot iogwrt
- plastr Paris
- dŵr
- powlen gymysgu a ffon/llwy
- olew coginio.

Modd o ddefnyddio cyfesurynnau GPS, e.e. ffonau clyfar, tabledi, ac ati.
Modd o gynnal helfa ffosil, e.e. ystyried amseroedd llanw – i weld pryd mae'n ddiogel hela ffosilau, bagiau plastig cadarn i roi ffosilau ynddynt, hen bapur newydd ar gyfer lapio darganfyddiadau cain, ffôn clyfar, camera, sbectol ddiogelwch a morthwyl daearegol (dewisol), llyfr nodiadau.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

# BETH YW FFOSILAU A SUT MAENT YN CAEL EU FFURFIO?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n darganfod sut mae ffosilau'n cael eu ffurfio ac yn cynnal helfa ffosil, yn y dasg hon.

## Sgrîn 3

Gofynnwch i'r dysgwyr edrych yn ofalus ar y ddelwedd a chwblhau'r brawddegau ar y sgrîn mewn cymaint o wahanol ffyrdd ag y gallant. Yna, gallant rannu rhai o'u hymatebion ag eraill.

## Sgrîn 4

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ydych chi erioed wedi gweld neu ddod o hyd i ffosil?
- Ble'r oeddech chi?
- Sut olwg oedd arno?
- Beth wnaeth ei achosi, yn eich barn chi?
- Ydych chi'n meddwl y gellir dod o hyd i ffosilau yn unrhyw le, neu ai dim ond mewn rhai mannau y maen nhw i'w cael? Pam?

## Sgrîn 5

Eglurwch wrth y dysgwyr fod angen rhai canllawiau ar y rhan fwyaf o weithgareddau er mwyn i bawb allu eu mwynhau. Gwahoddwch y dysgwyr i gwblhau'r tabl drwy restru eu syniadau ynghylch 'rheolau' hela ffosilau.

## Sgrîn 6

Ar y sgrîn hon, rhoddir rhai rheolau ar gyfer hela ffosilau, i'r dysgwyr. Gofynnwch iddynt feddwl am y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pe byddech chi'n mynd ar helfa ffosilau, pa un o'r 'rheolau' hyn fyddai bwysicaf, yn eich barn chi? Pam?

## Sgrîn 7

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw am greu atgynhyrchiad o ffosil, a bod defnyddio plastr i greu atgynhyrchiad o ffosil yn debyg i'r broses ffosileiddio go iawn. Rhoddir y cyfarwyddiadau ar y sgrîn.

## Sgrîn 8

Gwahoddwch y dysgwyr i gwblhau'r geiriau coll yn y frawddeg ar y sgrîn, gan ddefnyddio ymchwil ar y rhyngrwyd i'w helpu, os oes angen. Yna, dylent drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa agweddau o'r ddwy broses sy'n wahanol?
- Pa agweddau o'r ddwy broses sydd yr un fath?

## Sgrîn 9

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod am fynd allan i'r awyr agored er mwyn dewis lleoliad da i gladdu eu ffosil a chofnodi cyfesurynnau GPS y man lle maent wedi'i gladdu. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ble ydych chi wedi clywed am GPS neu gyfesurynnau o'r blaen?
- Ar gyfer beth mae cyfesurynnau GPS yn cael eu defnyddio? Sut ydych chi'n gwybod?
- Sut allwch chi ddefnyddio ffôn clyfar neu dabled i ddarganfod a chofnodi cyfesurynnau GPS? Os nad ydych chi'n gwybod sut i wneud hyn, ymchwiliwch ar-lein i gael gwybod. Yna, rhowch gynnig ar y dulliau i wirio eu bod yn gweithio.

**Nodiadau ar gyfer defnyddio GPS**

**Android**

1. Gwnewch yn siŵr bod GPS eich Android wedi'i droi ymlaen. Mae eich GPS yn gwella cywirdeb eich cyfesurynnau yn sylweddol ac yn eich helpu i ddod o hyd i'ch lleoliad presennol ar fap yn hawdd.
2. Gallwch wirio'ch GPS o'ch panel Gosodiadau Cyflym (Quick Settings) trwy lithro i lawr o frig eich sgrîn, a thapio'r eicon olwyn ddannedd mewn blwch ('cog-and-box') yn nghornel uchaf eich sgrîn ar y dde.
3. Agorwch yr ap Google Maps ar eich Android. Mae'r eicon Mapiau yn edrych fel pin lleoliad coch ar fap bychan. Gallwch ddod o hyd iddo yn eich dewislen Apiau.
4. Tapiwch yr eicon croeswallt ('crosshair'). Mae wedi'i leoli ar fotwm gwyn yng nghornel dde isaf eich sgrîn. Bydd y botwm hwn yn nodi eich lleoliad presennol ar y map, ar ffurf smotyn glas, ac yn eich symud ato yn awtomatig.
5. Tapiwch ar yr ysmotyn glas a'i ddal. Bydd hyn yn gollwng pin coch ar eich lleoliad ar y map. Bydd eich cyfesurynnau GPS cyfredol yn ymddangos yn y maes chwilio ar frig eich sgrîn.

**Apple**

1. Gallwch ofyn i 'Siri' am eich cyfesurynnau – cyn belled â bod y Gwasanaethau Lleoliad (Location services) ymlaen.
2. Galluogwch y Cwmpawd (Compass) yn eich Gosodiadau (Settings).
3. Tapiwch ar Lleoliad (Location).
4. Galluogwch eich dewis o leoliad a thoglo ar y switsh nesaf i Lleoliad Cywir (Precise Location).
5. Ewch i'r ap Cwmpawd (Compass); bydd yn dangos eich lleoliad presennol a'r cyfesurynnau GPS cyfredol.

## Sgrîn 10

Ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored er mwyn dewis lleoliad da i gladdu eu ffosil a chofnodi'r cyfesurynnau.

## Sgrîn 11

Gofynnwch i'r dysgwyr herio pâr arall i geisio dod o hyd i'w ffosil, gan ddefnyddio'r cyfesurynnau GPS.

## Sgrîn 12

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw am fynd ar helfa ffosilau ar Ynys Môn. Dywedwch wrthyn nhw y gellir dod o hyd i ffosilau mewn llawer o leoedd. Mae'r rhan fwyaf i'w cael ar draethau neu mewn chwareli.

Gwahoddwch y dysgwyr i ymchwilio ar-lein i ddod o hyd i'r mathau o ffosilau maen nhw'n debygol o ddod o hyd iddyn nhw, fel y byddan nhw'n gallu eu gweld yn hawdd.

Yna, dylent wneud llyfr bach ar gyfer cadw nodiadau maes, gan greu rhestr o'r mathau cyffredin o ffosilau a'u disgrifiadau. Gallant gynnwys diagramâu ohonynt a chofnod o'u meintiau.

## Sgrîn 13

Ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored i chwilio am ffosilau, gwirio eu llyfr nodiadau er mwyn enwi pob ffosil a chofnodi eu cyfesurynnau.

## Sgrîn 14

Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio un neu fwy o'r ymadroddion ar ddechrau brawddegau pan yn myfyrio ar y dasg.

TASG 2

# SUT YDYM NI'N GWYBOD AM HANES YR HENFYD?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n dysgu am archaeoleg a rhai darganfyddiadau archaeolegol pwysig ar Ynys Môn, yn y dasg hon.

## Sgrîn 3

Gwahoddwch y dysgwyr i edrych ar y ddelwedd a thrafod y cwestiynau canlynol gyda'u partner.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ydych chi'n meddwl yw hwn?
- Ble gellir dod o hyd i rywbeth fel hyn?
- Pa mor hen y gallai hwn fod, yn eich barn chi? Pam?

## Sgrîn 4

Eglurwch wrth y dysgwyr fod 89 o safleoedd cynhanesyddol wedi'u gwasgaru ledled Ynys Môn a'i hynysoedd. Mae'r safleodd hyn yn cynnwys beddrodau siambr, carneddau claddu a meini hirion, bryngaerau, cylchoedd o gytiau a meingylch. Rhoddir pedwar o'r safleoedd a'u cyfesurynnau ar y sgrîn. Gwahoddwch y dysgwyr i edrych ar y map a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa rai o'r safleoedd hyn ydych chi wedi clywed amdanynt? Beth ydych chi'n ei wybod amdanynt?
- Edrychwch ar y map a defnyddiwch y cyfesurynnau i ddod o hyd i bob un. Pa un o'r safleoedd hyn yw'r agosaf at eich ysgol?
- Pa ffordd fyddai'r orau i deithio i'r safle agosaf? Pam mai dyma'r ffordd orau?
- Pam ydych chi'n meddwl bod y rhan fwyaf o'r safleoedd cynhanesyddol yn safleoedd claddu?

## Sgrîn 5

Gofynnwch i'r dysgwyr ddewis un o'r adroddiadau hyn (Saesneg yn unig):

Anglesey skeletons: Tests date remains to 4th Century - BBC News

Skeleton at Llanbedrgoch, Anglesey, sheds light on Viking Age - BBC News

Dywedwch wrthyn nhw eu bod am ddefnyddio Microsoft Forms (Saesneg yn unig) i lunio 10 cwestiwn ar gyfer pâr arall o ddysgwyr, yn seiliedig ar yr adroddiad newyddion o'u dewis. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa fath o gwestiynau fyddwch chi'n eu creu (e.e. ateb byr, amlddewis, ateb hirach, ac ati)? Pam?

Yna, dylai'r dysgwyr lunio eu cwestiynau a gofyn i bâr arall o ddysgwyr sydd wedi dewis yr un adroddiad, i roi cynnig arnynt.

## Sgrîn 6

Gwahoddwch y dysgwyr i geisio defnyddio'r geiriau a roddir iddyn nhw i gwblhau'r brawddegau ar y sgrîn, er mwyn dangos eu dealltwriaeth o archaeoleg.

## Sgrîn 7

Dangoswch y fideo - Obama yn cyffwrdd ag esgyrn hynafiad hynafol: Obama touches bones of ancient ancestor (tua munud a hanner o hyd) Yna, dylent drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ddysgoch chi am Lucy, wrth wylio'r fideo?
- Pam ydych chi'n meddwl y daethpwyd o hyd i Lucy yn Ethiopia?
- Beth arall hoffech chi ei wybod am Lucy?

Yn olaf, dylent wneud rhywfaint o ymchwil ar y rhyngrwyd er mwyn ateb y cwestiynau yn y grid CwAMFf ar y sgrîn nesaf. Gall dysgwyr ychwanegu cwestiynau eraill at y grid.

## Sgrîn 8

Ar y sgrîn hon, darperir grid CwAMFf.

## Sgrîn 9

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw am ddefnyddio canfyddiadau eu hymchwil i greu ffeithlun am Lucy. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth sy'n gwneud ffeithlun da? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa wybodaeth sydd angen i chi ei chynnwys? Pam?
- Beth yw'r ffordd orau o gyflwyno'r wybodaeth hon? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

Yna, gallant greu eu ffeithlun, a'i rannu gyda'r dosbarth. Gallent gyrchu Best infographic tools (Saesneg yn unig) i gael gwybodaeth am adnoddau ar gyfer creu ffeithlun ar-lein, yn rhad ac am ddim.

TASG 3

# I BLE Y MAE ARTEFFACTAU ARCHAEOLEGOL YN 'PERTHYN'?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n ystyried a ddylai arteffactau gael eu harddangos yn agos at y man lle cawsant eu darganfod ai peidio.

## Sgrîn 3

Eglurwch wrth y dysgwyr fod tlws bylchgrwn yn ffurf gyffredin iawn ar emwaith Celtaidd hynafol, a oedd yn gyffredin ym Mhrydain cyn y cyfnod Rhufeinig. Roedd y tlysau'n cael eu gwneud gan ddefnyddio efydd, haearn neu aloi copr. Yna, gall dysgwyr gyrchu'r wefan: Penannular Brooch - British Museum (Saesneg yn unig) cyn trafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ar gyfer beth y defnyddiwyd y tlws, yn eich barn chi? Pam?
- Beth mae'r tlws wedi'i wneud?
- Sut mae cynllun y tlws yn dynwared anifail?
- Pa mor hen yw'r tlws?
- Pam ydych chi'n meddwl bod rhywfaint o ddryswch ynglŷn â ble y daethpwyd o hyd i'r tlws?

## Sgrîn 4

Ar y sgrîn hon, rhoddir gwybodaeth ynghylch sut y darganfuwyd y tlws bylchgrwn ger Cytiau'r Gwyddelod ym Mhorth Dafarch, Ynys Môn. Cafodd ei arddangos yng Nghymru rhwng y 1af o Fai a'r 30ain o Fedi 1991 yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd.

Mae'r tlws i'w weld ar hyn o bryd yn yr Amgueddfa Brydeinig yn Llundain.

Ar ôl dros 20 mlynedd yn Llundain, mae rhai pobl yn dadlau y dylid ei ddychwelyd 'adref' i Gymru. Mae llawer o arteffactau eraill, a ddarganfuwyd yng Nghymru, yn cael eu harddangos mewn amgueddfeydd y tu allan i Gymru.

Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen yr erthygl am yr ymgyrch hon: Buried treasure: calls for important Welsh artefacts to be brought back home (Saesneg yn unig)

## Sgrîn 5

Ar y sgrîn hon, cyflwynir dadleuon o blaid ac yn erbyn dychwelyd arteffactau Cymreig i Gymru. Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried y dadleuon a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa rai o'r dadleuon hyn sydd bwysicaf yn eich barn chi? Pam?
- Pa rai sydd ddim mor bwysig yn eich barn chi? Pam? Blaenoriaethwch y dadleuon a'u gosod mewn trefn, yn ôl eu pwysigrwydd.
- Pa ddadleuon eraill y dylid eu cynnwys, yn eich barn chi? Pam?
- Ydych chi'n meddwl y dylai'r arteffactau gael eu dychwelyd i Gymru? Pam?

Yna, dylai dysgwyr ysgrifennu crynodeb un dudalen o hyd, yn mynegi eu safbwynt a'r rhesymau sydd ganddynt dros gael y safbwynt hwn.